Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol CTM) |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion/Ardal Pen-y-bont ar Ogwr Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM |
| **SWYDD:** | Rheolwr Tîm Cynorthwyol (Asesu Arbenigol) |
| **GRADD Y SWYDD:** | Gradd 13 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Asesu Arbennig Integredig |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

A chithau'n gweithio gyda'r Rheolwr Asesu Arbennig Integredig byddwch yn rhoi arweinyddiaeth weithredol a phroffesiynol i'r Timau Asesu Arbenigol yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd y swydd hon yn cynorthwyo'r Rheolwr Asesu Arbennig ac yn cynnwys cyfrifoldebau dirprwyo dirprwyedig ond bydd yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth weithredol y Timau Asesu Arbenigol yn ogystal â rhoi arweiniad ar addysg staff a myfyrwyr a bydd gennych lwyth achosion bach o achosion cymhleth hefyd.

Byddwch yn rhoi cymorth a chyngor proffesiynol o ddydd i ddydd i'r Therapyddion Galwedigaethol, Rheolwr Tîm Synhwyraidd a staff eraill mewn perthynas ag arfer ac ymyriadau Therapi Galwedigaethol. Byddwch yn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth ac yn hyrwyddo'r safonau uchaf o arfer proffesiynol yn y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol a'r Tîm Synhwyraidd.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Goruchwylio a bod yn gyfrifol am reoli'r llwyth gwaith, ac arfer proffesiynol, goruchwylio, cyngor a chymorth y gwasanaethau Asesu Arbenigol Integredig er mwyn bodloni blaenoriaethau gwasanaeth y cytunwyd arnynt.

- Sicrhau bod yr arfer proffesiynol a'r broses o wneud penderfyniadau clinigol o safon uchel a bod ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth yn deg ac yn cael eu cynnal. Sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaeth yn canolbwyntio ar y person, yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn diwallu'r angen a aseswyd.

- Ar y cyd â'r Rheolwr Asesu Arbenigol Integredig, bod yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o gyflawni amrywiaeth o ymyriadau sy'n defnyddio adnoddau yn gymesur er mwyn diwallu anghenion a nodwyd ac yn

sicrhau'r annibyniaeth fwyaf posibl; gweithio ar y cyd ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol eraill lle y bo'n briodol.

- Gwneud a/neu gynorthwyo asesiadau cymhleth a dadleuol, gan sicrhau bod ymyriadau gydag unigolion a'r rhai sy'n rhoi gofal iddynt yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn cyd-fynd â dyheadau'r unigolyn lle bynnag y bo modd.

- Cydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill drwy ddarparu cyngor a chymorth Therapi Galwedigaethol arbenigol, gan weithredu fel adnodd i'r staff yn y timau Asesu Arbenigol, aseswyr dibynadwy a gweithwyr proffesiynol eraill ar achosion unigol.

- Cynorthwyo dysgu yn y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol a'r Tîm Amlddisgyblaethol ehangach a Thimau Asesu Arbenigol eraill, a all gynnwys rhoi cyflwyniadau ar faterion Therapi Galwedigaethol.

- Cael cyfrifoldeb am adnoddau'r gyfarwyddiaeth ardal ar y cyd a'r Bwrdd Iechyd fel y'u dirprwyir ac fel sy'n ofynnol gan y Rheolwr Therapi Galwedigaethol Integredig

- Cadw'r cofnodion diweddaraf ar y ffeiliau electronig, a dogfennau perthnasol yn unol â pholisïau'r Gyfarwyddiaeth, y Bwrdd Iechyd, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol a'r HCPC.

- Sicrhau bod eich perfformiad eich hun yn cyflawni targedau iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol y cytunwyd arnynt yn unol â'r Tîm, a'ch bod yn dilyn safonau arfer proffesiynol HCPC a Choleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol.

- Ymgymryd ag adolygiadau goruchwylio, arfarnu a datblygu personol gydag aelodau dynodedig o staff, gan nodi unrhyw anghenion datblygu a hyfforddiant.

- Cynorthwyo'r Rheolwr Therapi Galwedigaethol Integredig gyda'i gyfrifioldebau er mwyn sicrhau bod gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Cymunedol effeithiol, effeithlon ac sy'n gwella'n barhaus yn cael ei ddarparu.

- Gweithredu fel Rheolwr Arweiniol Dynodedig wrth Ddiogelu Oedolion Agored i Niwed pan fo angen

- Gweithio mewn partneriaeth â'r Rheolwr Therapi Galwedigaethol Integredig ac eraill er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol yn datblygu yn unol â chyfarwyddiadau polisi Llywodraeth Cymru.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm Asesu Diogelu Plant.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL (LLE Y BO'N BERTHNASOL)**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person
## Rheolwr Tîm Cynorthwyol (Asesu Arbenigol)

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (✓).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster Therapi Galwedigaethol cydnabyddedig e.e. BSc Anrhyd, DipCOT.<br>• Cofrestru gyda HCPC<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus/datblygiad personol ôl-gymhwyso, addysg a hyfforddiant sy'n berthnasol i Therapi Galwedigaethol, a/neu reoli Therapi Galwedigaethol<br>• Addysgwr Lleoliad Ymarfer Achrededig. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • O leiaf 3 blynedd o brofiad ôl-gymhwyso, gyda phobl ag anghenion cymhleth ac effeithiau hyn ar unigolion/gofalwyr/teulu e.e. profiad cymhwyso.<br>• Gwybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd, llywodraethu a rheoleiddio a gofynion cadw cofnodion.<br>• Gwybodaeth am faterion presennol ac arfer gorau sy'n ymwneud â therapi galwedigaethol, anghenion synhwyraidd a darparu gwasanaethau integredig<br>• Gwybodaeth am gymhwyso meini prawf cymhwystra'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a dealltwriaeth o hyn. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad (parhad)** | • Gwybodaeth am ofynion a phrosesau cofrestru Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol a HCPC.<br>• Dealltwriaeth o effaith eiddilwch a salwch cronig ac effaith hyn ar unigolion/gofalwyr/teuluoedd.<br>• Gwybodaeth am bolisi, canllawiau statudol a'r gyfraith bresennol fel y maent yn cael eu cymhwyso a sut y maent yn effeithio ar bobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau o ran darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, iechyd a thai.<br>• Profiad o asesu ymarfer/goruchwylio/hyfforddia/neu reoli staff.<br>• Profiad o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau statudol/gwirfoddol i hyrwyddo annibyniaeth unigolion.<br>• Profiad o reoli o fewn adnoddau a ddyrannwyd.<br>• Gwybodaeth am Reoli Perfformiad mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.<br>• Dealltwriaeth o egwyddorion cymorth seiliedig ar gryfderau, dan gyfarwyddyd y dinesydd.<br>• Dealltwriaeth o ddyletswydd gydraddoldeb cyrff cyhoeddus. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Ymrwymiad i gyflawni'r sgiliau ymarfer proffesiynol uchaf, drwy'r gallu i gymell, annog, hyfforddi a datblygu pob aelod o'r tîm.<br>• Sgiliau effeithiol yn rhyngbersonol ac wrth drafod pobl.<br>• Gallu blaenoriaethu a pharodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am reoli llwyth gwaith a pherfformiad mewn amgylchedd o flaenoriaethau sy'n newid.<br>• Dilyn Cod Ymddygiad Proffesiynol y Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol.<br>• Gallu gweithio yn ôl egwyddorion y model cymdeithasol o anabledd ac ymrwymiad i hyn.<br>• Parodrwydd a gallu i wneud dyfarniadau proffesiynol cadarn gan gynnwys materion risg uchel am ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.<br>• Gallu rheoli a datrys gwrthdaro mewn ffordd gadarnhaol.<br>• Gallu defnyddio systemau TGCh yn gymwys i gofnodi gwaith a rhoi tystiolaeth ohono, gan | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau** | | | Cyfweliad, ffurflen gais a |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Personol (parhad)** | ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant angenrheidiol.<br>• Gallu gweithio mewn ffordd broffesiynol, cynrychioli'r gyfarwyddiaeth a'r bwrdd iechyd mewn amrywiaeth o gyfarfodydd mewnol ac allanol<br>• Ymrwymiad y gellir ei ddangos i gydraddoldeb ac arfer gwrthwahaniaethol a'r gallu i integreiddio polisïau cydraddoldeb i mewn i ddarparu strategaethau a gwasanaeth.<br>• Trwydded yrru gyda mynediad i gerbyd.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy<br>Ydy | phroses ddethol. |